

Cyfarwyddyd Cais Grant Gofal Plant

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion pellach ar y cais, sut i'w gwblhau, a'r broses o wneud penderfyniadau.

Dim ond busnesau sydd wedi'u seilio a'u cofrestru yng Nghymru sydd yn gymwys i ymgeisio. I gael mynediad at y Grant, bydd angen i fusnesau os nad ydynt eisoes wedi cofrestru gyda Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a gwasanaeth Busnes Cymru wneud hynny.

I'r rhai sydd yn datblygu eu busnes ond ddim eto yn masnachu, gallwch ymgeisio am y Grant ond ni fydd yr arian yn cael ei dalu tan ar ôl cofrestru gyda CIW.

Dim ond pan fydd angen cydnabyddedig am lleoedd gofal plant ychwanegol yn ardal y busnes y bydd y Grant yn cael ei dalu. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau drwy'r Awdurdod Lleol priodol. Lle mae cyllid yn gyfyngedig, rhoddir blaenoriaeth i fusnesau o fewn y Cynnig 30 Awr Gofal Plant am ddim o ofal plant i blant tair a phedair oed mewn ardaloedd peilot. Mae talu Grantiau yn ddarostyngedig i argaeledd ariannu parhaus.

Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn darparu cefnogaeth wedi'i deilwra i fusnesau cychwyn, micro a busnesau bach a chanolig yng Nghymru a gallant helpu'r rhai sy'n gweithio yn y sector Gofal Plant. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall beth yw eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra gan gynnwys mynediad at offer ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi ar gynllun diagnostig a chynllun busnes, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a mynediad at becyn cymorth ariannol ar-lein a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer y sector gofal plant.

I gael gwybod mwy ac i gael ffurflen gais, ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 03000 6 03000 neu siaradwch â'ch tîm Busnes Cymru lleol. Mae sgwrs byw ar gael hefyd ar

www.business.wales.gov.uk

Pwrpas

Pwrpas y Grant yw annog creu lleoedd gofal plant ychwanegol a lleoedd ychwanegol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol neu arbennig yng Nghymru i gefnogi Cynnig Gofal Plant 30 Awr Llywodraeth Cymru.

Y Cynnig 30 Awr

Pan gaiff ei gyflwyno ledled Cymru erbyn Medi 2020, bydd y cynnig, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu 30 awr o addysg cynnar a gofal plant i rieni sy'n gweithio gyda plant 3 a 4 oed am 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r cynnig ar gael ar hyn o bryd mewn wardiau penodol mewn 7 ardal beilot yn: Ynys Môn, Gwynedd, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Blaenau Gwent. O fis Medi 2018, bydd hefyd ar gael yng Nghaerdydd (cyflwyniad fesul cam), Casnewydd (cyflwyniad fesul cam), Torfaen (y sir gyfan), Castell-nedd Port Talbot (cyflwyniad graddol),

Ceredigion (y sir gyfan), Conwy (cyflwyniad graddol) Wrecsam (cyflwyniad graddol). Mae croeso i geisiadau o bob rhan o Gymru cyn belled bod wir angen lleoedd ychwanegol yn yr ardal.

Nod y fenter yw gwneud gwahaniaeth go iawn i rieni sy'n gweithio ar draws Cymru, gan leihau'r straen ar incwm teuluoedd a helpu i sicrhau nad yw gofal plant yn rhwystr iddynt fynd i gyflogaeth neu gynyddu eu horiau.

Sut a pryd i ymgeisio

Mae'r grant Gofal Plant yn agored i geisiadau hyd at Awst 2019. I wneud cais, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais a chyflwyno copi wedi'i lofnodi a'i ddyddio i'r cyfeiriad ar waelod tudalen 3. Fel arall, gellir anfon copi wedi'i sganio i'r cyfeiriad e-bost ar waelod tudalen 3.

Canllawiau ar gwblhau Tudalen 1

Mae'r ddau adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd', eich lleoliad gofal plant a'r lleoedd sydd gennych ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i chi, 'yr ymgeisydd' allu dweud wrthym am y math o leoliad gofal plant rydych chi'n ystyried ei sefydlu fel busnes arfaethedig neu fusnes newydd neu'r math o leoliad gofal plant rydych chi'n gweithio ynddi ar hyn o bryd (Gwarchodwr plant / Meithrinfa / Cylch Chwarae / Cylch Meithrin / Clwb Gofal Plant tu hwnt i'r Ysgol) a statws y busnes (menter gymdeithasol / unig fasnachwr / cwmni cyfyngedig / arall (e.e sector gwirfoddol)). Disgwylir i'r person hwn hefyd gael yr awdurdod ariannol i allu ymdrin ag unrhyw ymholiadau grant sydd gennym mewn perthynas â'r cais hwn.

Mae'n ofynnol i bob lleoliad gofal plant yng Nghymru fod wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Am ragor o fanylion, gweler eu gwefan: <https://careinspectorate.wales/> Dylech nodi'ch rhif cofrestru yn y bocs priodol.

I'r rhai sy'n datblygu eu busnes ond ddim eto yn masnachu, gallwch ymgeisio am y Grant ond ni fydd yr arian yn cael ei dalu tan ar ôl cofrestru gyda CIW.

Mae'r llefydd gofal plant sydd gennych ar hyn o bryd wedi'u grwpio yn ddau gategori - nifer y llefydd fesul plentyn o dan 20 awr yr wythnos a nifer y llefydd fesul plentyn dros 20 awr yr wythnos.

Plant ag anghenion ychwanegol neu arbennig yw'r rhai sydd ag anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu nam synhwyrdd lle mae angen cymorth neu offer ychwanegol.

Canllawiau ar gwblhau Tudalen 2

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am y Grant yr ydych yn ymgeisio amdano.

Mae dwy lefel o gyllid:

Lefel 1 – cyllid o £500 i ymgeiswyr sydd am greu llefydd gofal plant newydd.

Lefel 2 – cyllid o £ 1000 i ymgeiswyr sydd am greu llefydd gofal plant newydd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol neu arbennig.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Dywedwch wrthym pam rydych eisiau'r Grant hwn a beth fydd yr arian yn cael ei wario. Ydych am ei wario ar offer ychwanegol, hyfforddiant staff neu gyflogau ychwanegol? Beth bynnag yw'r costau, dylech gynnwys dadansoddiad llawn (ar wahân i unrhyw TAW) a dyfynbrisiau lle bo'n briodol. Ar gyfer busnesau sydd wedi cofrestru am TAW, **ond costau net (heb TAW) sydd yn gymwys gan y Grant.**

Llefydd gofal plant newydd - mae hyn yn golygu'n benodol darparu llefydd gofal plant ychwanegol naill ai fel busnes newydd neu yn ychwanegol at leoedd presennol mewn busnes sefydledig (Gwarchodwr plant / Meithrinfa / Cylch Chwarae / Cylch Meithrin / Clwb Gofal Plant tu hwnt i'r Ysgol). Dylai llefydd gofal plant newydd fod o leiaf 20 awr yr wythnos (neu fwy) fesul plentyn. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn berthnasol i greu llefydd gofal plant newydd ar gyfer plant ag anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu nam synhwyrdd lle mae angen cymorth neu offer ychwanegol.

Tystiolaeth o angen lleol - a fydd y Grant hwn yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am eich gwasanaethau, a oes gennych restr aros neu a oes prinder darparwyr eraill yn eich ardal chi? A oes angen i chi ddarparu ar gyfer plant ychwanegol ag anghenion ychwanegol neu arbennig? Dylech gysylltu gyda'ch Awdurdod Lleol i ddarganfod os yw'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn datgan angen lleoedd ychwanegol yn eich ardal chi.

Canllawiau ar gwblhau Tudalen 3

Dyma lle mae angen i chi gofnodi manylion y banc y telir y Grant ynddo.

Datganiad - Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen ac yn deall yr amodau sy'n gysylltiedig â'r cais Grant hwn. Os ydych chi'n cytuno â'r amodau a gallwch gadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais yn wir ac yn gywir, yna rhaid i chi fewnosod eich llofnod a'r dyddiad yn y blychau a ddarperir. Rhaid i'r cais sydd wedi'i arwyddo a'i ddyddio gan y person sydd ag awdurdod ariannol o fewn y sefydliad / busnes.

Beth sy'n digwydd ar ol i'r cais gael ei dderbyn?

Cydnabyddir ceisiadau Grant o fewn pum diwrnod gwaith ar ol i ni eu derbyn. Bydd penderfyniadau ar Grantiau yn cael eu gwneud o fewn deg diwrnod gwaith o gydnabod derbyn y cais. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais a gwiriadau gwybodaeth y byddwn yn eu cynnal o ddata ffynhonnellau ariannol a busnes eraill. Os yw'r wybodaeth neu'r cais yn anghyflawn, yna gall prosesu gymryd mwy o amser.

Os dyfernir arian, byddwch yn derbyn llythyr yn rhoi gwybod i chi am ddyfarniad y Grant a'r dyddiad talu. Gwneir taliadau mewn un rhandaliad fel arfer o fewn pump diwrnod gwaith o'r llythyr hwn. Sylwer, mae darpariaeth y Grant hwn yn ôl disgrisiwn Llywodraeth Cymru ac yn ddarostyngedig i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ac argaeledd cyllid.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Tua pedwar mis ar ôl i'r Grant gael ei dalu i chi, bydd tîm Llinell Gymorth Busnes Cymru yn cysylltu â chi i ofyn ambell i gwestiwn a dilyn i fyny. Byddent eisiau clywed sut mae pethau'n mynd gyda creu'r llefydd gofal plant newydd ac os gallent gynnig cymorth ychwanegol gan y Gwasanaeth.

Os yw'ch cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn amlinellu'r rheswm [au] pam ac argymhellion ar gyfer cymorth pellach. Bydd hefyd yn cynnwys manylion sut y gallech chi gymryd y mater hwn ymhellach os ydych chi'n dymuno gwneud hynny.

Manylion Cyswllt

Os oes angen help arnoch gyda'ch cais, siaradwch â'ch tîm Busnes Cymru lleol neu ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 03000 6 03000. Mae sgwrs byw ar gael hefyd ar www.business.wales.gov.uk

Fel arall, gallwch ysgrifennu at y Gweinyddwr Grant Gofal Plant, Busnes Cymru, Parc Bocam, Uned 14/15 Heol Oldfield, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ

AD-DALU GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai Llywodraeth Cymru neu ei gontractwyr penodedig ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu'r Grant yn llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Trwy arwyddo'r cais yr ydych chi, yr ymgeisydd, yn ymrwmo i gytundeb fel y cyfryw a gall hyn gael ei orfodi trwy ofyn am brawf gwariant, dyfarniad ar ôl y Grant.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**